# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod o'r Is-Bwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mercher, 24 Ebrill 2019 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Melvyn Mile, Rhys Thomas a Huw Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfreithiwr (AL), Swyddog Trwyddedu (NJ) a'r Gweinyddwr Pwyllgor (KEJ)

## 1 PENODI CADEIRYDD

Penodwyd y Cynghorydd Huw Williams yn Gadeirydd y cyfarfod.

Croesawodd y Cadeirydd yr holl bartïon i'r cyfarfod a chyflwynwyd pawb a oedd yn bresennol. Roedd gweithdrefnau'r gwrandawiad wedi'u dosbarthu ymlaen llawn i'r holl bartïon a darparwyd copïau o'r Datganiad Polisi Trwyddedu yn ystod y cyfarfod.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

## 3 DEDDF TRWYDDEDU 2003: CAIS AM DRWYDDED SAFLE NEWYDD – RHYL SPICE, 64-66 HEOL Y FRENHINES, Y RHYL

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) a oedd yn ymwneud â'r materion isod –

(i) cais gan gwmni Cyfreithwyr Gamlins Law ar ran yr Ymgeisydd, Md Muhim Uddin (Atodiad A yr adroddiad) ar gyfer Trwydded Safle newydd ar gyfer Rhyl Spice, 64 – 66 Heol y Frenhines, Y Rhyl, yn cynnig gweithredu fel bwyty a siop tecawê gyda darpariaeth danfon archebion dros y ffôn, ac yn yr holl achosion byddai alcohol yn cael ei werthu neu ei ddanfon dim ond pan fyddai'r cwsmer yn prynu pryd o fwyd;

(ii) cais gan yr ymgeisydd am ganiatâd i ddarparu'r gweithgareddau trwyddedadwy a ganlyn –

| GWEITHGAREDD TRWYDDEDADWY | DYDDIAU Y BYDD YN GYMWYS | O'R AMSER ISOD | TAN YR AMSER ISOD |
|---|---|---|---|
| Lluniaeth ar y safle ac oddi arno yn hwyr y nos | Dydd Llun – Dydd Sul | 23:00 | 02:00 |
| Cyflenwi Alcohol (ar gyfer ei yfed ar y safle neu oddi arno) | Dydd Llun – Dydd Sul | 11:00 | 02:00 |
| Yr oriau y byddai'r safle ar agor i'r | Dydd Llun – Dydd Sul | 11.00 | 02.00 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| cyhoedd | | | |
| Mynediad olaf i'r bwyty a'r cyfleuster tecawê am 01.00. Gwasanaeth danfon dros y ffôn tan 02.00. (Alcohol i'w werthu ar y cyd â bwyd) | | | |

(iii) sylwadau gan Heddlu Gogledd Cymru a chynnig ar gyfer nifer o amodau (a gytunwyd gan yr Ymgeisydd) i'w gosod ar y drwydded, petai'n cael ei chaniatáu, yn ymwneud â danfon alcohol er mwyn helpu i hybu'r amcanion trwyddedu a ganlyn: atal trosedd ac anhrefn ac amddiffyn plant rhag niwed (Atodiad B yr adroddiad);

(iv) dau sylw ysgrifenedig a dderbyniwyd gan Bartïon â Diddordeb (Atodiad C yr adroddiad) mewn ymateb i'r hysbysiad cyhoeddus, yn ymwneud ag aflonyddu posibl oherwydd sŵn a llygredd aer;

(v) y ffaith bod y swyddogion wedi cynnig gwasanaeth cyfryngu rhwng yr Ymgeisydd a'r Partïon â Diddordeb ond nad oedd unrhyw ddatrysiad hyd yma;

(vi) yr angen i ystyried y cais gan roi ystyriaeth ddyledus i Ddatganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor; Canllawiau a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Gwladol; deddfwriaeth berthnasol arall a sylwadau perthnasol a dderbyniwyd, a hefyd

(vii) y dewisiadau sydd ar gael i'r pwyllgor wrth ddod i benderfyniad ar y cais.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu (NJ) yr adroddiad ac amlinelliad o ffeithiau'r achos.

**CAIS YR YMGEISYDD**

Roedd yr Ymgeisydd Md Muhim Uddin a'i gynrychiolydd cyfreithiol, Mr. P. Williams o gwmni Cyfreithwyr Gamlins Law yn bresennol i gefnogi'r cais.

Esboniodd Mr. Williams y cynigion ar gyfer gweithredu'r drwydded gan gynghori y byddai alcohol yn cael ei werthu ar y cyd â phrydau bwyd mawr. Ni fyddai alcohol ar werth ar ôl 01.00 o'r gloch yn y bwyty a'r siop tecawê yn unol ag amseroedd mynediad olaf, ac ar ôl 02.00 o'r gloch yn achos prydau tecawê y gwasanaeth archebu a danfon dros y ffôn.

Roedd Heddlu Gogledd Cymru wedi cyflwyno sylwadau yn ymwneud ag amodau ychwanegol posibl i'w cynnwys yn yr Amserlen Weithredu o ran danfon alcohol ac roedd yr Ymgeisydd wedi cytuno i'r amodau hyn. O ran y ddau sylw ysgrifenedig a dderbyniwyd gan Bartïon â Diddordeb mewn ymateb i'r hysbysiad cyhoeddus angenrheidiol, dywedodd Mr. Williams fod y ddau yn cyfeirio at sŵn gan gwsmeriaid yn gadael y safle ar ôl 23.00 o'r gloch ac yn ymgynnull yn yr ardal ysmygu ynghyd â phroblemau yn ymwneud ag arogleuon. Dywedodd fod y pryderon hynny wedi bod yn seiliedig ar ymddygiad y deiliaid blaenorol a bod y safle wedi cael ei gau rai misoedd ynghynt oherwydd problemau rheoli. Roedd yr Ymgeisydd wedi bod yn gweithredu ar y safle ers 9 Ebrill 2019 yn unig ar sail gyfyngedig ac nid oedd wedi bod ar agor yn hwyrach na 23.00 o'r gloch. Felly, mae'n rhaid bod y pryderon a godwyd yn gysylltiedig â'r deiliaid blaenorol. Byddai'r Ymgeisydd yn gweithredu yn unol â'r amodau caeth a nodwyd yn y cais er mwyn hybu amcanion trwyddedu, a

thynnwyd sylw penodol at y mesurau i'w rhoi ar waith er mwyn atal niwsans cyhoeddus ac unrhyw aflonyddwch o ran sŵn i'r eiddo cyfagos o ystyried pryderon y Partïon â Diddordeb. O ran problemau yn ymwneud ag arogleuon, roedd y system echdynnu wedi cael ei hadnewyddu a'r system awyru wedi cael ei hymestyn a dylai hyn, ynghyd â rheolaeth dda o'r hidlyddion aer, fynd i'r afael â'r pryderon hynny. Tynnwyd sylw'r Aelodau hefyd at y Canllawiau a gyhoeddwyd o dan Adran 182 Deddf Trwyddedu 2003 o safbwynt rôl awdurdodau â chyfrifoldeb i gyflwyno sylwadau a nodwyd na dderbyniwyd unrhyw sylwadau gan Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd o ran problemau sŵn na llygredd ac ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth o gwynion am y materion hyn.

Cyfeiriodd Mr. Williams ymhellach at y sylwadau a dderbyniwyd gan y Partïon â Diddordeb. Dywedodd iddynt gael eu cyflwyno ar yr un diwrnod, eu bod wedi'u gosod ar ffurf debyg a'u bod yn tynnu sylw at yr un niwsans. Nid oedd y ddau Barti â Diddordeb wedi bod yn fodlon ystyried cyfryngu ar y mater er gwaethaf sawl ymgais i wneud hynny a gan nad oeddynt wedi dod i'r gwrandawiad nid oedd yn bosibl ystyried eu sylwadau yn llawn a chanfod pam nad oeddynt wedi cwyno wrth Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd yn y gorffennol a pham nad oedd unrhyw drigolion eraill yn yr ardal wedi mynegi unrhyw wrthwynebiad. Dywedwyd bod nifer o safleoedd eraill yn gwerthu bwyd yn yr ardal ac nid oedd yn glir a oedd gan y Partïon â Diddordeb fuddiant neu gysylltiad â busnesau tebyg – yn enwedig gan fod un o'r Partïon â Diddordeb wedi bod yn gweithredu busnes tebyg iawn tan yn ddiweddar. Yng ngoleuni'r amodau caeth a gynigiwyd, ac yn unol â pharagraff 9.6 y Canllawiau a gyhoeddwyd o dan Adran 182 Deddf Trwyddedu 2003, cynigiwyd y dylid ystyried bod y sylwadau hyn yn ddisylwedd a'u bod yn ymwneud â mân broblemau ar y mwyaf ac na fyddai unrhyw gamau lliniarol yn gymesur ac na ellid eu cyfiawnhau.

Yn olaf, cyfeiriwyd at y broses adolygu a oedd yn cynnig amddiffyniad allweddol i'r gymuned pan fyddai problemau'n codi ar ôl caniatáu'r drwydded gan olygu bod modd gofyn i'r awdurdod trwyddedu adolygu'r drwydded.

Gofynnodd yr Is-bwyllgor Trwyddedu am fwy o eglurder ynghylch yr amseroedd y gofynnwyd amdanynt ar gyfer yr oriau trwyddedu o ystyried bod y cais yn nodi y byddai alcohol yn cael ei werthu ar y safle ac oddi arno tan 02.00 o'r gloch. Cadarnhaodd Mr. Williams mai'r bwriad oedd gwerthu alcohol tan 01.00 o'r gloch yn y bwyty a'r siop tecawê i gyfateb â'r amseroedd mynediad olaf. Byddai alcohol yn cael ei werthu gyda bwyd yn unig fel rhan o'r gwasanaeth archebu a danfon dros y ffôn tan 02.00 o'r gloch.

Rhoddodd yr Ymgeisydd a'i gynrychiolydd yr atebion a ganlyn i gwestiynau'r aelodau –

- ymhelaethwyd ar y gwaith o adnewyddu'r system echdynnu arogleuon a dywedwyd y gellid ei haddasu/newid ymhellach os derbynnir cwyn yn y dyfodol
- esboniwyd bod yr amodau a gynigiwyd gan Heddlu Gogledd Cymru ar gyfer danfon alcohol yn cynnig y dylid gwario o leiaf £5 ar fwyd ac roedd yr Ymgeisydd wedi cytuno i hyn – rhoddwyd sicrwydd na fyddai alcohol yn cael ei werthu os na fyddai'n ategol i bryd tecawê mawr

- eglurwyd y gallai'r gwerthiant/amser y gwerthiant ddigwydd dros y ffôn petai cardiau credyd neu daliadau dros y ffôn yn cael eu derbyn, neu gydag arian parod ar ôl danfon y bwyd – byddai'n rhaid i'r gyrrwr benderfynu a oedd y cwsmer yn feddw ai peidio a gwirio pwy oedd y cwsmer ar garreg y drws
- roedd y bwriad i gadw cofnod o eiddo wedi'u gwahardd lle gwrthodwyd danfon bwyd/alcohol yn estyniad ar y system bresennol sy'n cael ei gweithredu gan safleoedd trwyddedig lle cedwir cofnodion o unigolion y gwrthodwyd eu gweini ac/neu a oedd wedi'u gwahardd o'r safle.

**CYFLWYNIAD HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

Yn absenoldeb cynrychiolydd o Heddlu Gogledd Cymru cymerwyd bod y sylwadau a nodwyd yn yr adroddiad yn gywir. Roedd yr amodau arfaethedig a gyflwynwyd gan yr Heddlu mewn perthynas â danfon alcohol wedi cael eu cytuno gyda'r Ymgeisydd i hybu'r amcanion trwyddedu petai'r cais yn cael ei ganiatáu yn ei ffurf wreiddiol.

**CYFLWYNIAD Y PARTÏON Â DIDDORDEB**

Derbyniwyd dau sylw ysgrifenedig (Atodiad C yr adroddiad) gan Bartïon â Diddordeb yn ardal y safle a oedd yn ymwneud ag achosion posibl o aflonyddu oherwydd sŵn a llygredd aer. Yn absenoldeb y ddau Barti â Diddordeb cymerwyd bod eu sylwadau yn gywir.

**DATGANIAD OLAF YR YMGEISYDD**

Cadarnhaodd Mr. Williams nad oedd ganddo ddim byd pellach i'w ychwanegu at ei gyflwyniad.

**TORRI I YSTYRIED Y CAIS**

Ar  y pwynt hwn (10.05 a.m.) torrodd yr Is-bwyllgor Trwyddedu i ystyried y cais.

**PENDERFYNIAD A'R RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

***PENDERFYNWYD****, yn amodol ar yr amodau a nodir isod, y caniateir Trwydded Safle fel a ganlyn –*

| ***GWEITHGAREDD TRWYDDEDADWY*** | ***DYDDIAU Y BYDD YN GYMWYS*** | ***O'R AMSER ISOD*** | ***TAN YR AMSER ISOD*** |
|---|---|---|---|
| *Lluniaeth ar y Safle ac oddi ar y Safle yn Hwyr y Nos* | *Dydd Llun – Dydd Sul* | *23:00* | *02:00* |
| *Cyflenwi Alcohol –*<br>*i'w yfed ar y safle ac oddi arno yn y bwyta a thrwy'r cyfleusterau tecawê*<br><br>*i'w yfed oddi ar y safle yn unig fel rhan o'r gwasanaeth archebu a* | *Dydd Llun – Dydd Sul* | *11:00* | *01:00* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| *danfon dros y ffôn* | *Dydd Llun – Dydd Sul* | *11.00* | *02:00* |
| *Oriau y byddai'r safle ar agor i'r cyhoedd* | *Dydd Llun – Dydd Sul* | *11.00* | *02.00* |
| *Mynediad olaf i'r bwyty a'r cyfleuster tecawê am 01.00. Y gwasanaeth archebu a danfon dros y ffôn tan 02.00. (Alcohol i'w werthu yn ategol i'r bwyd)* | | | |

***AMODAU***

***Fel y'u cynigiwyd gan Heddlu Gogledd Cymru –***

*AR GYFER DANFON ALCOHOL YN UNIG:*

1. *Rhoddir gwybod i'r holl gwsmeriaid pan fyddant yn prynu os yw'r gyrrwr o'r farn eu bod eisoes wedi meddwi, yna ni fydd alcohol yn cael ei ddanfon a rhoddir ad-daliad llawn. Ni dderbynnir unrhyw archebion gan gwsmeriaid y credir eu bod yn feddw ar adeg y gwerthiant.*

2. *Rhoddir gwybod i gwsmeriaid pa fyddant yn archebu bod y cwmni yn gweithredu polisi 25 oed. Os gofynnir iddynt, rhaid i gwsmeriaid ddangos prawf o'u hoedran/hunaniaeth pan ddanfonir y nwyddau.*

3. *Gellir cludo sawl archeb yn y cerbyd danfon ar yr un pryd.*

4. *Danfonir eitemau i gyfeiriadau preswyl neu fusnes dilys yn unig. Cedwir cofnod o'r holl gyfeiriadau lle danfonir eitemau a bydd hwn ar gael i'r Heddlu a Swyddogion yr Awdurdod Lleol os gofynnir amdano.*

5. *Bydd unrhyw gyfeiriad lle ceisiwyd danfon eitemau ond gwrthodwyd eu danfon yn cael ei roi ar restr waharddedig ac ni dderbynnir archebion pellach o'r cyfeiriad hwnnw. Cedwir cofnod o'r holl gyfeiriadau ar y rhestr o eiddo gwaharddedig a bydd hwn ar gael i'r Heddlu a Swyddogion yr Awdurdod Lleol os gofynnir amdano.*

6. *Gwerthir alcohol ar y cyd â bwyd yn unig. Rhaid gwario o leiaf £5 ar fwyd.*

Cafodd penderfyniad yr Is-bwyllgor ei gyflwyno i'r Ymgeisydd gan y Cadeirydd ac esboniodd y Cyfreithiwr beth oedd y rhesymau dros y penderfyniad, fel a ganlyn –

Roedd yr Aelodau wedi ystyried y cais a'r sylwadau yn yr achos hwn yn ofalus ac roeddynt yn fodlon bod yr amodau arfaethedig a gytunwyd gyda Heddlu Gogledd Cymru yn gymesur ac y byddent yn darparu amddiffyniad pellach ac o gymorth i hybu'r amcanion trwyddedu. O ran y sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y Partïon â Diddordeb, roedd yr Aelodau o'r farn nad oedd unrhyw gwynion wedi cael eu gwneud i'r Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd mewn cysylltiad â'r safle o dan y rheolwyr presennol ac nid oedd y Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd wedi cyflwyno unrhyw sylwadau er eu bod yn awdurdod â chyfrifoldeb. Roedd y ffaith nad oedd y gwrthwynebwyr wedi dod i'r cyfarfod i fynegi eu pryderon yn golygu bod yn rhaid i'r Is-bwyllgor ystyried eu sylwadau ysgrifenedig fel ffaith ac nid oeddynt wedi cael cyfle i holi'r gwrthwynebwyr ymhellach. O ganlyniad, daeth yr Is-bwyllgor i'r casgliad bod y cwynion yn ymwneud â deiliaid blaenorol y safle. Er nad oedd yr Is-

bwyllgor wedi mynd mor bell â datgan bod y gwrthwynebiadau yn ddisylwedd, ni roddwyd llawer o bwys arnynt ac ym marn yr Aelodau nid oedd unrhyw bryderon ar hyn o bryd. Fel rhagofal, roedd gan y gwrthwynebwyr yr hawl i ofyn am adolygu'r cais petai'r safle yn cael ei weithredu yn groes i'r amcanion trwyddedu. Fodd bynnag, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod yr amodau manwl a nodwyd yn y cais ac a fyddai'n cael eu gosod ar y safle yn ddigonol i hybu'r amcanion trwyddedu. Gwnaed mân newid i'r oriau trwyddedu yn dilyn esboniad o'r oriau caniataol y gofynnwyd amdanynt gan yr Ymgeisydd a'i gynrychiolydd cyfreithiol.

Roedd hawl gan yr holl bartïon i apelio yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor Trwyddedu i'r Llys Ynadon cyn pen 21 diwrnod.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.20 a.m.